# CYNGOR CYMUNED LLANRUG A CHWM Y CLÔ

***Mae gan aelodau o'r cyhoedd a'r wasg yr hawl i fod yn bresennol yn y cyfarfod dilynol oddi tan Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfod) 1960 Adran 1 a'i hymestynnwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Adran 100. Oni bai fe'i ataliwyd gan y Cyngor Cymuned drwy benderfyniad a wnaethpwyd ar ddechrau neu yn ystod y cyfarfod. Fodd bynnag, ni fydd hawl o'r fath yn cynnwys yr hawl i siarad ar unrhyw fater ac eithrio ar ddechrau'r cyfarfod ar yr amod fod rhybudd ymlaen llaw wedi ei roi i'r Clerc.***

***Gan efallai na fydd materion a godwyd yn ystod y sesiwn gyhoeddus yn ymwneud ag eitemau ar yr agenda ni all unrhyw benderfyniad ar gyfer gweithredu gael ei gymryd. Bydd cofnod o'r cyfranogiad y cyhoedd yn cael ei gynnwys fel rhaglith yn y Cofnodion ac os oedd angen unrhyw gamau y byddant yn cael eu hadrodd ar yn nodiadau'r Clerc oddi tan hawl Materion Pwnc Gorffennol.***

## AGENDA

**Cynhelir cyfarfod o'r uchod am 7:00 y.h. Nos Fawrth, 20 o Fawrth 2018 yn Ysgol Gynradd, Cwm y Glo i drafod y materion a grybwyllir isod**

**136.** **Croeso gan y Cadeirydd**

**137.** **Derbyn ymddiheuriadau.**

**138.** **Datgan buddiant personol.**

**139.** **Cadarnhau cofnodion cyfarfod mis 20 fed Chwefror 2018**

**140.** **Materion yn codi o'r cofnodion.**

**141.** **I dderbyn adroddiad ar y sefyllfa ddiweddara parthed penderfyniad Cyngor Gwynedd i gau Clwb Ieuenctid Llanrug**

**142.** **I dderbyn sylwadau ar faterion y Fynwent.**

**143.** **I dderbyn sylwadau ar faterion llwybrau cyhoeddus**

**144.** **I dderbyn sylwadau ar faterion meysydd chwarae**

**145.** **I dderbyn adroddiad gan gynrychiolydd y Cyngor Cymuned ar gorff Llywodraethol Ysgol Gynradd Llanrug**

**146.** **I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd**

**147.** **I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Charles Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd (gwêl isod)**

1. ***Y peth nesaf sylweddol fydd yn digwydd yn Llanrug yw ail wynebu rhannau o Ffordd yr Orsaf ym mis Mehefin (dyna yw'r gobaith).***

2. ***Parthed y llifogydd diweddar, mae perchennog y tir dros ffordd i'r hen Hafod Garage wedi derbyn Planning Contravention Notice am ddympio pridd a rwbal ar y tir heb ganiatad cynllunio. Os na fydd y perchennog yn ymateb oddi fewn 21 diwrnod (23 Chwefror), mi fydd y cyngor yn cymryd cyngor cyfreithiol cyn bwrw ymlaen gydag achos gorfodaeth, gan bod angen sicrhau bod unrhyw rybudd gorfodaeth yn cael ei gyflwyno yn gywir.***

3. ***Dwi'n siwr fydd aelodau o'r cyngor cymuned efo diddordeb yn yr amserlenni newydd ar gyfer 82/83 (Caernarfon – Deiniolen a Dinorwig) a 88 (Caernarfon - Llanberis). Mae'r amserlenni newydd yn dod i rym 8 Ebrill.***

**148.** **I dderbyn diweddariad ar y sefyllfa drosglwyddo cae Chwarae Cwm y Glo a Dolafon i Gyngor Cymuned Llanrug Oddiwrth Cyngor Gwynedd.**

**149.** **I ystyried ac i roi sylwadau am yr amserlenni bws newydd sydd yn dod i rym 8fed o Ebrill 2018 (copïau eisoes wedi eu dosbarthu i aelodau).**

**150.** **Adroddiad ar y trefniant ar gyfer ail lenwi biniau halen ac fod angen ystyried y drefn ar gyfer gaeaf 2018 / 2019.**

**151.** **Lleoliadau biniau halen – angen ystyried os ydi'r rhai presennol yn ddigonol ac yn y lleoliadau cywir ac os oes angen mwy.**

**152.** **Taliadau y Gynghorwyr Cyngor Cymuned a Thref (Adroddiad eisoes wedi ei gylchredeg i aelodau) ac mae angen penderfynu pa bryd y telir yr arian ar gyfer aelodau.**

**153.** **I ystyried y ceisiadau ariannol gan y mudiadau canlynol**

- **a) Llewod Llanrug**
- **b) Ambiwlans Awyr Cymru**
- **c) Theatr Bara Caws**

**154.** **Ceisiadau Cynllunio – rhain i'w trafod mewn cyfarfod arbennig i'w gynnal Nos Yfory am 7:00 yn Sefydliad Coffa, Llanrug.**

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiad am yr uchod neu am waith y Cyngor tuag at y

Clerc: Mr Meirion Jones PSLCC
7 Nant y Glyn
Llanrug
LL55 4AH
☎ 07769 112875
clerc@llanrug.cymru